



Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol (AGLI) 2016-2017

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg

Adroddiad Archwilio'r Awdurdod Goruchwylio Lleol

Rhif y fersiwn:	1
Cyhoeddwyd gyntaf:	21 Mawrth 2017
Paratowyd gan:	Maureen Wolfe, Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Rhestr ddosbarthu:

Goruchwylwyr Bydwreigiaeth

Pennaeth Bydwreigiaeth

Cyfarwyddwr Nyrsio

Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: www.agic.org.uk

Cynnwys Tudalen

Cynnwys Tudalen	3
1 Cyflwyniad	4
2 Y Safonau ar gyfer Goruchwylio	4
3 Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwylio Lleol	5
4 Methodoleg	5
5 Y Broses Archwilio	5
6 Ymweliad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol 6	
7 Asesiad o'r Graddau y Cydymffurfir â Rheolau a Safonau	
Bydwragedd (NMC 2012)	7
8 Crynodeb o'r Argymhellion	19
9 Monitro	22
10 Casgliad	23
11. Atodiadau	24
11.1 Atodiad 1 – Rhaglen Archwiliad Blynyddol yr AGLI	24
11.2 Atodiad 2 – Holiadur yr AGLI	27
11.3 Atodiad 3 – Holiadur yr Adolygydd Lleyg	40

1 Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) sy'n pennu'r rheolau a'r safonau ar gyfer swyddogaeth yr Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLI) a'r broses o oruchwylio bydwagedd. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI) yn atebol yn broffesiynol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Swyddogaeth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yw sicrhau bod proses statudol o oruchwylio bydwagedd ar waith er mwyn sicrhau bod gofal bydwreigiaeth diogel o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i fenywod.

Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn cael eu penodi gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, y mae ei swyddogaeth yn rhan o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Prif gyfrifoldeb yr AGLI yw diogelu'r cyhoedd drwy fonitro ansawdd ymarfer bydwreigiaeth drwy gyfrwng goruchwyliaeth statudol ar fydwragedd. Bydd yr AGLI yn penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i gyflawni swyddogaethau'r AGLI yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i bob bydwraig sy'n ymarfer yn y Deyrnas Unedig fod â Goruchwylwr Bydwagedd a enwir. Bydwraig yw Goruchwylwr Bydwagedd, sydd wedi cymhwyso ers o leiaf dair blynedd ac sydd wedi dilyn cwrs paratoi mewn goruchwyliaeth ar fydwragedd (Rheol 8, NMC 2012). Mae pob Goruchwylwr Bydwagedd yn unigolyn y gall bydwagedd droi ato i gael cyngor, arweiniad a chymorth. Bydd y Goruchwylwr Bydwagedd yn monitro gofal drwy gwrdd â phob bydwraig yn flynyddol (Rheol 9, NMC 2012), archwilio dull y bydwagedd o gadw cofnodion, ac ymchwilio i unrhyw adroddiadau ynghylch problemau/pryderon o ran ymarfer. Maent hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw ddioglyddiadau difrifol a rhoi gwybod i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI amdanynt (Rheol 10, NMC 2012).

Mae Rheol 7 *Rheolau a Safonau Bydwagedd* (NMC 2012) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI gwblhau archwiliad blynyddol o ymarfer a goruchwyliaeth bydwagedd o fewn ei ardal i sicrhau bod gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni. Mae Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn llywio gwaith y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Rheol 13).

2 Y Safonau ar gyfer Goruchwylio

1. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd ar gael i gynnig cyfarwyddyd a chymorth i fenywod sy'n cael mynediad at wasanaeth mamolaeth ac yn darparu gofal ar gyfer menywod ar sail tystiolaeth.
2. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn atebol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn uniongyrchol am bob mater sy'n ymwneud â'r oruchwyliaeth statudol ar fydwragedd ac mae fframwaith lleol ar gael i ategu'r swyddogaeth statudol.
3. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol ac yn meithrin darpar arweinwyr.
4. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn hawdd mynd atynt ac yn hygyrch i fydwragedd i'w cefnogi yn eu hymarfer.
5. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn cynorthwyo bydwagedd i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer ymarfer bydwreigiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

3 Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol

Diben archwiliad blynyddol 2016–17 yw:

- Cadarnhau bod argymhellion yr archwiliad blaenorol wedi'u cyflawni
- Cadarnhau bod Goruchwylwyr Bydwagedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwyllo ym mhob bwrdd iechyd yn ôl safonau'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth
- Sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith er diogelwch mamau a babanod
- Adolygu effaith goruchwyliaeth ar ymarfer bydwreigiaeth
- Gwneud awgrymiadau ynglŷn â datblygiadau pellach a gwelliannau parhaus
- Sicrhau bod ymarfer bydwreigiaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth a'i fod yn ymateb i anghenion menywod
- Asesu a datblygu dealltwriaeth cyfranogwyr o'r newidiadau i'r drefn oruchwyllo statudol.

Bydd canfyddiadau'r gwaith archwilio ledled Cymru yn cyfrannu at y trywydd a ddilynir ar gyfer cynorthwyo bydwagedd pan wneir y newidiadau deddfwriaethol i adael y drefn goruchwyliaeth statudol yn 2017.

4 Methodoleg

Fel rhan o'r broses o archwilio safonau'r AGLI, bydd tîm archwilio'r AGLI yn gwirio tystiolaeth. Mae'n ofynnol i'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd adlewyrchu hefyd ar ei berfformiad drwy wneud cyflwyniad, a fydd yn cael ei gyflwyno i dîm adolygu'r archwiliad ac yn cynnwys llwyddiannau a heriau. Cydnabyddir bod hunanadolygu'n ddull pwerus sy'n ysgogi datblygiad proffesiynol ac sy'n creu ymwybyddiaeth o atebolrwydd personol.

Bydd y tîm adolygu'n cwblhau adolygiad o'r dystiolaeth cyn yr archwiliad, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid o'r graddau y mae'r goruchwylwr bydwagedd unigol yn cydymffurfio â phroses ymchwilio'r AGLI.

Ym mlwyddyn derfynol hon y drefn o gael yr AGLI i archwilio goruchwyliaeth statudol, bydd y dull a ddefnyddir yn canolbwyntio ar y rôl statudol greiddiol a ddisgrifir yn nogfen Rheolau a Safonau Bydwagedd.

5 Y Broses Archwilio

Ar gyfer 2016/17, roedd y broses archwilio'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn unol ag asesiad o'r graddau y cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwagedd (NMC 2012), gan gynnwys adolygiad o'r cynllun gweithredu i gyflawni argymhellion yr AGLI yn sgil ymweliad archwilio 2015/16

- Ymweliad archwilio, gan gynnwys holi bydwragedd a menywod.

6 Ymweliad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Cynhaliwyd archwiliad blynyddol yr AGLI ar 18 a 19 Hydref 2016 gan Maureen Wolfe, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI. Cefnogwyd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI gan Oruchwylwyr Bydwragedd sy'n gymheiriaid Karen Roberts a Cath Norman, gan adolygydd yr AGLI Louise Woolley, a gan Sadie Silcox, a ddarparodd gymorth i dîm yr AGLI.

Roedd tîm goruchwylio Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cynnwys Karen Evans, Dawn Kelly a Rebecca Lewis. Roedd 302 o fydwragedd mewn swyddi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar ddiwedd yr ail chwarter (30 Medi 2016) ac 1.9 o Oruchwylwyr Bydwragedd cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn cyfateb i un Goruchwyliwr Bydwragedd i bob 12 o fydwragedd, sydd o fewn terfyn y gymhareb ofynnol a bennwyd gan y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth, sef un Goruchwyliwr Bydwragedd i bob 15 o fydwragedd.

Mae gan yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd gweithredol lwyth achosion o fydwragedd ac maent yn cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu cyngor a chymorth goruchwylio 24 awr drwy rota ar-alwad Cymru gyfan.

Roedd pob Goruchwylydd Bydwragedd yn cyfrannu at y gwaith o goladu'r dystiolaeth a datblygu'r cyflwyniad yn ystod yr ymweliad archwilio. Roedd hwn yn cynnwys llwyddiannau'r timau a'r heriau yn ystod 2015–16.

7 Asesiad o'r Graddau y Cydymffurfir â Rheolau a Safonau Bydwagedd (NMC 2012)

Rheol 4 Hysbysiadau gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Rheol

(1) Mae'n rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon gyhoeddi:

(a) enw a chyfeiriad ei swyddog bydwreigiaeth y mae hysbysiad o dan Reol 3(2) neu (3) i'w gyflwyno iddo;

(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).

(1A) Rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol yn Lloegr gyhoeddi:

(a) enw a chyfeiriad pob un o'i swyddogion bydwreigiaeth y mae hysbysiad o dan Reol 3(2) neu (3) i'w gyflwyno i un ohonynt;

(b) y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).

(2) Mae'n rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol hysbysu'r Cyngor, ar y ffurf a'r amllder a nodir gan y Cyngor, am unrhyw hysbysiad o roddir iddo o dan Reol 3.

Safon AGLI

1 Er mwyn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer goruchwylio bydwagedd, rhaid i awdurdod goruchwylio lleol sicrhau bod:

1.1 Hysbysiadau bwriad i ymarfer yn cael eu hanfon i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth erbyn y dyddiad cyflwyno blynyddol a nodir gan y Cyngor.

1.2 Hysbysiadau bwriad i ymarfer a dderbynnir ar ôl y dyddiad cyflwyno blynyddol yn cael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Disgwyliad yr AGLI

Byddai ffurflenni ar gyfer hysbysu am y bwriad i ymarfer, wedi'u personoli, wedi cael eu hanfon at bob bydwraig y mae ei henw'n ymddangos ar y gofrestr effeithiol fel ar 31 Mawrth 2016. Er mwyn i fydwragedd fod yn gymwys i gyflwyno hysbysiad o'r bwriad i ymarfer, rhaid iddynt fod â chofrestriad effeithiol ar y rhan o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n ymwneud â bydwagedd a'r bwriad i ymarfer bydwreigiaeth.

Cyn i'r bwriad i ymarfer gael ei lofnodi, rhaid i'r Goruchwyliwr Bydwagedd a enwir fod wedi cynnal asesiad o'r graddau y mae'r fydwraig wedi cydymffurfio â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gynnal cofrestriad bydwreigiaeth a rhaid cadarnhau ei bod yn gymwys i ymarfer yn fydwraig. Rhaid

Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad

Canfuwyd bod pob bydwraig wedi cyflwyno'i ffurflen ynghylch ei Bwriad i Ymarfer i oruchwyliwr ac yn gymwys i ymarfer ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Roedd y tîm yn gallu mynegi prosesau clir a chadarn ar gyfer cyflwyno hysbysiadau am y bwriad i ymarfer.

Mae goruchwylwyr bydwagedd yn sicrhau bod bydwagedd yn cydymffurfio â safonau addysg ac ymarfer ar ôl cofrestru cyn lofnodi eu hysbysiad am y bwriad i ymarfer, trwy gyfeirio at gofnodion eu hadolygiad blynyddol unigol, sy'n cynnwys gwybodaeth am eu datblygiad proffesiynol parhaus a'u horiau ymarfer.

i'r Goruchwyliwr Bydwagedd a enwir ddogfennu'r dystiolaeth y mae wedi ei hadolygu ar gyfer pob bydwaig gan nodi sut y mae'n bodloni gofynion addysg ac ymarfer ar ôl cofrestru (PREP) y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth o ran 35 awr o weithgarwch dysgu (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) a 450 awr o ymarfer cofrestredig ym mhob cylch hysbysu am ymarfer tair blynedd.

Arferion Nodedig

- **Cydymffurfiwyd yn llwyr â chofnodion a dileadau Bwriad i Ymarfer**
- **Cydymffurfiwyd yn llwyr â datganiadau misol y Bwriad i Ymarfer**

Meysydd i'w gwella

- **Ddim yn berthnasol**

Canlyniad

Bodlonwyd Rheol 4

Rheol 6 Cofnodion

Rheol

- (1) Rhaid i fydwaig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â gofal neu gyngor a roddir i fenyw neu ofal a roddir i faban, yn dilyn cael eu rhyddhau o'r gofal hwnnw:
 - (a) yn cael eu trosglwyddo i gyflogwr y fydwaig er mwyn cadw'r cofnod yn ddiogel; neu
 - (b) yn cael eu cadw'n ddiogel gan y fydwaig ei hun os yw'n hunangyflogedig: ond os nad yw'r fydwaig yn gallu gwneud hyn, yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod goruchwyllo lleol yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol i'w cadw'n ddiogel.
- (2) Pan fydd cofrestriad bydwaig gyda'r Cyngor yn dod i ben, rhaid iddi, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â gofal neu gyngor a roddir i fenyw neu ofal a roddir i faban yn cael eu trosglwyddo i gael eu storio'n ddiogel i'r awdurdod goruchwyllo lleol a oedd, cyn i'w chofrestriad ddod i ben, awdurdod goruchwyllo lleol y fydwaig ar gyfer ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol.

Safon AGLI

- 1 Rhaid i awdurdod goruchwyllo lleol gyhoeddi canllawiau lleol ar gyfer trosglwyddo cofnodion bydweigiaeth o fydwagedd hunangyflogedig, a dylent gynnwys y canlynol:
 - 1.1 Pryd y mae'r cofnodion i'w trosglwyddo.
 - 1.2 I bwy y mae'r cofnodion i'w trosglwyddo.
 - 1.3 Dulliau o sicrhau bod cofnodion yn cael eu hanfon yn ddiogel.
 - 1.4 Dogfennau i gofnodi trosglwyddiad o'r fath.

Safon bydwagedd

- 1 Rhaid cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â gofal menyw neu faban yn ddiogel am 25 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith os ydynt yn cynnwys gwybodaeth glinigol.
- 2 Dylai bydragedd sy'n hunangyflogedig sicrhau y gall menywod gael mynediad at eu cofnodion, a dylent eu hysbysu am leoliad eu cofnodion os yw'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod goruchwyllo lleol.

Disgwyliad yr AGLI

Mae bydragedd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn a/neu wybodaeth glinigol yn cael eu cadw'n ddiogel (mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith).

Rhaid i oruchwylwyr bydragedd hysbysu bydragedd sy'n ymarferwyr hunangyflogedig pan ddylent drosglwyddo cofnodion i'r AGLI, a gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol am bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU ar gyfer cofnodion bydragedd hunangyflogedig.

Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad

Gwelwyd bod yr holl gofnodion bydwreigiaeth wedi'u storio'n ddiogel yn ystod yr ymweliad archwilio. Cynhaliodd y tîm archwilio hapwiriad o fannau storio nodiadau o fewn mamolaeth ar ddiwrnod yr archwiliad.

Mae'r holl oruchwylwyr bydragedd yn gallu disgrifio'r broses sy'n ofynnol ar gyfer cofnodion bydragedd hunangyflogedig.

Arferion Nodedig

- Y broses ar waith ar gyfer trosglwyddo cofnodion i AGIC

Meysydd i'w gwella

- Ddim yn berthnasol

Canlyniad

Bodlonwyd Rheol 6

Rheol 8 Goruchwylwyr Bydragedd

Rheol

- (1) Rhaid i awdurdod goruchwyllo lleol benodi'r hyn mae'r Cyngor yn ei ystyried yn nifer digonol o oruchwylwyr bydragedd i oruchwyllo bydragedd sy'n ymarfer yn ei ardal.
- (2) Rhaid i oruchwylwr bydragedd:
 - (a) fod yn fydwrraig sy'n ymarfer; a
 - (b) cyflawni'r safonau gofynnol o ran profiad ac addysg ar gyfer swydd goruchwylwr bydragedd

fel y'u pennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

- (3) Ar ôl cael ei benodi, mae'n rhaid i oruchwylydd bydwragedd gwblhau cyfnodau o ddysgu perthnasol mewn perthynas â goruchwyllo bydwragedd, o'r fath sy'n ofynnol gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

Safonau AGLI

- 1 Mae goruchwylwyr bydwragedd yn cael eu penodi gan yr awdurdod goruchwyllo lleol, ac maent yn gyfrifol iddo am yr holl faterion sy'n ymwneud â goruchwyliaeth statudol ar fydwragedd. Rhaid i'r awdurdod goruchwyllo lleol:
 - 1.1 Gyhoeddi polisi sy'n nodi ei feini prawf a'i weithdrefnau ar gyfer penodi unrhyw oruchwylwr bydwragedd newydd yn ei ardal.
 - 1.2 Cynnal rhestr gyfoes o'r goruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal.
 - 1.3 Sicrhau y darperir o leiaf chwe awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus fesul blwyddyn o ymarfer.
- 2 Er mwyn cael ei phenodi am y tro cyntaf yn oruchwylwr bydwragedd, rhaid i fydwrraig:
 - 2.1 Feddu ar o leiaf dair blynedd o brofiad yn fydwrraig sy'n ymarfer. Rhaid i o leiaf un o'r blynyddoedd hynny fod yn y cyfnod o ddwy flynedd yn syth cyn y dyddiad penodi cyntaf.
- 3 Rhaid iddi hefyd fod naill ai:
 - 3.1 Wedi cwblhau'n llwyddiannus rhaglen addysg gymeradwy ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd yn y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn y dyddiad penodi cyntaf; neu
 - 3.2 Pan fo mwy na thair blynedd, ond llai na phum mlynedd, wedi mynd heibio ers iddi gwblhau'n llwyddiannus rhaglen addysg gymeradwy ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd, wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.
- 4 Yn achos unrhyw benodiad dilynol yn oruchwylwr bydwragedd, rhaid iddi fod yn fydwrraig sy'n ymarfer a:
 - 4.1 Bod wedi ymarfer yn oruchwylwr bydwragedd neu'n swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwyllo lleol yn y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol; neu
 - 4.2 Pan nad yw ond wedi ymarfer yn oruchwylwr bydwragedd neu'n swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwyllo lleol mewn cyfnod sy'n fwy na thair blynedd ond yn llai na phum mlynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol, fod wedi llwyddo hefyd i gydymffurfio â'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.
- 5 Rhaid i oruchwylwr bydwragedd allu bodloni'r cymwyseddau a nodir mewn Safonau ynghylch paratoi goruchwylwyr bydwragedd a'u hymarfer (NMC 2006).

Disgwyliad yr AGLI

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd sy'n Fyfyrrwyr yn cael eu recriwtio a'u cynorthwyo'n ddigonol yn dilyn proses lwyddiannus o gwblhau'r cwrs Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd (PoSOM).

Rhaid i bob goruchwyllydd bydwragedd ddangos y cymwyseddau a amlinellir yn y Safonau ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd (NMC 2012).

Mae rhestr gyfoes o Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael ar gronfa ddata'r AGLI a bydd yn cael ei chyflwyno yn adroddiad archwilio'r AGLI.

Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad

Mae'r niferoedd cywir o Oruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu penodi y tu mewn i'r bwrdd iechyd.

Mae holl aelodau'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cwblhau a chofnodi eu gweithgareddau PREP gofynnol.

Mae pob aelod o'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi hunanasesu eu cymhwysedd i gyflawni'r swydd ac wedi cynllunio i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu a nodwyd.

Ar adeg yr archwiliad, roedd rhestr y Goruchwylwyr Bydwragedd a oedd wedi'u penodi ar gronfa ddata'r AGLI yn

	gywir.
Arferion Nodedig	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae tîm y Goruchwylwyr Bydwagedd wedi'i hen sefydlu ac yn weledol yn glinigol 	
Meysydd i'w gwella	
<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn berthnasol 	
Canlyniad	
Bodlonwyd Rheol 8	

Rheol 9 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer Goruchwylio Bydwagedd

Rheol

Rhaid i awdurdod goruchwylio lleol sicrhau:

- (a) bod pob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal â goruchwyliwr bydwagedd a enwir o blith y goruchwylwyr bydwagedd a benodwyd gan yr awdurdod goruchwylio lleol yng nghyswllt ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol;
- (b) o leiaf unwaith y flwyddyn, y bydd goruchwyliwr bydwagedd yn cwrdd â phob bydwraig y mae'n oruchwyliwr bydwagedd a enwir iddi er mwyn adolygu ymarfer y fydwraig ac i ganfod ei hanghenion o ran addysg;
- (c) bod pob goruchwyliwr bydwagedd yn ei ardal yn cynnal cofnodion o'i weithgareddau goruchwylio, gan gynnwys unrhyw gyfarfod â bydwraig; a
- (d) bod pob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal â mynediad 24 awr at oruchwyliwr bydwagedd p'un ai'r goruchwyliwr a enwir sydd gan y fydwraig yw honno neu oruchwyliwr bydwagedd arall.

Safonau AGLI

1 Rhaid i awdurdod goruchwylio lleol:

1.1 Sicrhau bod fframwaith lleol yn bodoli i ddarparu:

1.1.1 Goruchwyliaeth deg ac effeithiol ar gyfer pob bydwraig sy'n gweithio yn yr awdurdod goruchwylio lleol.

1.1.2 Cymorth ar gyfer myfyrwyr-fydwagedd i'w galluogi i gael mynediad at oruchwyliwr bydwagedd.

1.2 Sicrhau bod y gymhareb o ran nifer y bydwagedd i bob goruchwyliwr bydwagedd yn adlewyrchu'r amgylchiadau a'r angen lleol ac nad yw'n peryglu diogelwch menywod. Fel rheol, ni fydd y gymhareb hon uwchlaw 1:15.

1.3 Gosod strategaeth i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng pob goruchwyliwr bydwagedd. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu â goruchwylwyr mewn awdurdodau goruchwylio lleol eraill.

1.4 Monitro a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i alluogi goruchwylwyr bydwagedd i gyflawni eu swydd.

1.5 Cyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb yn y dull a fabwysiadir gan oruchwylwyr bydwagedd yn ei ardal ar gyfer ymdrin â'r adolygiad blynyddol o ymarfer bydwraig. Rhaid i'r rhain gynnwys bod y goruchwyliwr yn ymgymryd ag asesiad o'r graddau y mae'r fydwraig yn cydymffurfio â'r gofynion i gynnal cofrestriad bydwreigiaeth. 1.6 Sicrhau bod systemau lleol ar gael i alluogi goruchwylwyr bydwagedd i gynnal cofnodion ynghylch eu holl weithgareddau goruchwylio, ac i gadw'r cofnodion hynny'n ddiogel.

Disgwyliadau'r AGLI

Mae fframwaith lleol ynghylch goruchwylio.

Rhaid i bob myfyriwr-fydwraig gael mynediad at Oruchwyliwr Bydwagedd a dylai fod systemau lleol at y diben hwn.

Mae'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwagedd yn dal i fod o fewn terfyn y gymhareb a argymhellir, sef un Goruchwyliwr Bydwagedd i bob 15 o fydwagedd.

Dylai adnoddau'r gwaith goruchwylio gael eu hadolygu ym mhob cyfarfod

Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad

Mae Goruchwyllydd Bydwagedd ar gael ac yn hygyrch 24 awr y dydd drwy system ar alwad. Mae manylion cyswllt ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd clinigol ar gyfer bydwagedd, ac mae'r broses ynglŷn â sut i gysylltu â Goruchwyllydd Bydwagedd ar wefan y bwrdd iechyd.

Roedd tîm y Goruchwylwyr Bydwagedd yn gallu dangos bod presenoldeb mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwagedd lleol ar draws y tîm yn 75%.

Mae gan bob bydwraig oruchwyliwr

<p>Goruchwylwyr Bydwagedd.</p> <p>Mae adolygiadau blynyddol wedi'u seilio ar bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU.</p> <p>Mae systemau lleol wedi'u datblygu i sicrhau bod Goruchwylwyr Bydwagedd â systemau ar gyfer cadw unrhyw gofnodion goruchwyllo'n ddiogel.</p>	<p>bydwagedd a enwir, ac roedd cronfa ddata'r AGLI yn dangos tystiolaeth o hynny.</p> <p>Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn cymryd rhan wrth addysgu myfyrwyr-fydwragedd ynglŷn â goruchwyliaeth yn yr ardal glinigol ac yn ceisio sefydlu dysgu o fewn y brifysgol. Mae myfyrwyr-fydwragedd yn gwybod sut i gysylltu â'u Goruchwylwr Bydwagedd eu hunain a'r Goruchwylwr Bydwagedd ar alwad os oes angen.</p> <p>Mae'r gymhareb gyffredinol o ran nifer y bydwagedd i bob Goruchwylwr Bydwagedd yn un i bob 12, sydd o fewn terfyn y gymhareb a argymhellir.</p> <p>Mae pob adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal yn unol â Pholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU, a chafodd hyn ei gadarnhau drwy gyfrwng hapwiriad ar gronfa ddata'r AGLI.</p> <p>Mae cofnodion goruchwyllo'n cael eu cadw'n ddiogel naill ai fel copi meddal ar gronfa ddata'r AGLI neu ar system iShare Llywodraeth Cymru. Mae copïau caled yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinetau storio dan glo.</p>
<p>Arferion Nodedig</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae myfyrwyr-fydwragedd yn ymwybodol o oruchwyliaeth a'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd. 	
<p>Meysydd i'w gwella</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda'r brifysgol i ailsefydlu cysylltiad y brifysgol â myfyrwyr-fydwragedd • Cyflawni cydymffurfiaeth lawn â phrosesau Adolygiadau Goruchwyllo Blynyddol yn ôl y gofyn 	
<p>Canlyniad</p>	
<p>Ni fodlonwyd Rheol 9</p> <ul style="list-style-type: none"> • 99% cydymffurfiaeth 	

Rheol 10 Cyhoeddi Gweithdrefnau Awdurdodau Goruchwyllo Lleol

Rheol

Rhaid i bob awdurdod goruchwyllo lleol gyhoeddi ei weithdrefn ar gyfer:

- (a) rhoi gwybod am bob digwyddiad niweidiol sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwreigedd sy'n ymarfer yn ei ardal;
- (b) ymchwilio i unrhyw adroddiadau a wneir o dan baragraff (a); ac
- (c) ymdrin â chwynion neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn ei swyddog bydwreigiaeth neu oruchwylwyr bydwreigedd yn ei ardal.

Rhoi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol, cwynion neu bryderon sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth

Safon AGLI

1 Rhaid i awdurdodau goruchwyllo lleol ddatblygu system gyda chyflogwyr bydwreigedd a bydwreigedd hunangyflogedig i sicrhau bod swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwyllo lleol yn cael ei hysbysu am bob digwyddiad niweidiol, cwyn neu bryder sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig.

Ymchwiliadau goruchwyllo

Safon AGLI

1 Rhaid i awdurdodau goruchwyllo lleol gyhoeddi canllawiau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau, cwynion neu bryderon sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o ffitrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig. Rhaid i'r canllawiau hyn:

- 1.1 Ddarparu ar gyfer dull agored, tryloyw, teg ac amserol, sy'n dangos prosesau gwneud penderfyniadau cadarn sy'n gwrthsefyll gwaith craffu allanol.
- 1.2 Rhoi cyfle i'r fydwraig gymryd rhan yn yr ymchwiliad.
- 1.3 Nodi'r camau gofynnol a'r canlyniadau posibl yn dilyn ymchwiliad.
- 1.4 Darparu ar gyfer proses apeliadau.

Disgwyliad yr AGLI

Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad

Dylai fod cofnod o'r holl ymchwiliadau a gynhaliwyd, gan gynnwys eu canlyniadau a'r amser a gymerwyd i'w cwblhau. Dylai fod tystiolaeth o waith adolygu rheolaidd o'r ymchwiliadau ac unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg o ran ymarfer bydwreigiaeth.

Dylai argymhellion gwasanaeth sy'n datblygu o ymchwiliadau gael eu huwchgyfeirio at y cyflogwr a'u monitro gan y tîm Goruchwylwyr Bydwreigedd.

Mae tystiolaeth o waith adolygu systematig o ymarfer bydwreigiaeth pan fo'n ofynnol.

Dylai fod rhyngwyneb effeithiol, tryloyw, sy'n cael ei rannu, rhwng goruchwyliaeth

Cynhelir ymchwiliadau goruchwyllo mewn byrddau iechyd allanol i leihau tuedd ac i uchafu'r cymorth lleol i'r fydwraig. Mae'r tîm yn llwyddo i gydymffurfio ym mhob maes ar wahân i amseroldeb.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd tri ymchwiliad gan y tîm o Oruchwylwyr Bydwreigedd Lleol, ond dim ond un o'r rhain a gwblhawyd o fewn yr amserlen 60 diwrnod a argymhellir.

Mae system gadarn ar gyfer dilyn ymchwiliadau y mae pob Goruchwylwyr Bydwreigedd yn ei defnyddio'n gyson.

Caiff canfyddiadau ymchwiliadau eu trafod mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr

<p>a llywodraethu clinigol.</p>	<p>Bydwagedd fel y gellir canfod tueddiadau a gweithredu unrhyw wersi drwy newid arferion a chynllunio camau.</p> <p>Caiff y rheolwyr eu holi ynghylch unrhyw argymhellion sefydliadol sy'n deillio o ymchwiliadau goruchwyllo.</p> <p>Mae goruchwylwyr bydwagedd yn mynychu cyfarfodydd llywodraethu mamolaeth, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r grŵp polisi, ac yn cyfrannu atynt.</p> <p>Mae system effeithiol er mwyn i oruchwylwyr bydwagedd gael eu hysbysu am bob digwyddiad niweidiol ym maes mamolaeth, sy'n golygu y gellir adolygu'n brydlon, cwblhau 'dull gwneud penderfyniadau' pan nodir hynny, a dechrau ymchwiliad goruchwyllo. Mae'r AGLI yn cymryd rhan yn y broses hon, mae'n goruchwyllo adroddiadau ymchwilio, ac mae'n cytuno ar unrhyw argymhellion a wneir ar gyfer bydwagedd o ganlyniad i ymchwiliad goruchwyllo.</p>
<p>Arferion Nodedig</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r holl ddogfennau ymchwiliadau gofynnol ar gael ac yn cael eu storio'n ddiogel. 	
<p>Canlyniad</p>	
<p style="text-align: center;">Rheol 10 – angen gwelliant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r holl ymchwiliadau goruchwyllo gael eu cwblhau o fewn 60 diwrnod ond cydnabyddir bod hwn yn fater sy'n berthnasol i Gymru gyfan. 	

4 Canfyddiadau'r Adolygydd Lleyg

Bu'r adolygydd lleyg yn chwarae rhan lawn yn yr archwiliad, gan gynnwys:

- Trafod â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch eu bodlonrwydd â'r gwasanaeth a'u hymwybyddiaeth o Oruchwylwyr Bydwagedd ar draws amrywiaeth o feysydd mewn amgylcheddau cyn geni ac ôl-enedig hefyd

- Arsylwi ar amgylcheddau clinigol cyffredinol, ac asesu amlygrwydd goruchwyliaeth mewn ardaloedd cyhoeddus
- Ymgymryd â gwaith ymchwil cyn archwilio o ran y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynglŷn â goruchwyliaeth ac ymwybyddiaeth y switsfwrdd o'r rhif ar-alwad Cymru gyfan
- Gweithio gyda Goruchwylwr Bydwragedd allanol i gynnal cyfweiliadau â'r canlynol:
 - Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth
 - Cynrychiolydd y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg
 - Bydwragedd – ystod o brofiad
 - Bydwragedd dan hyfforddiant
 - Goruchwylwr Bydwragedd.

Defnyddwyr y gwasanaeth

Cyfwelwyd ag wyth o fenywod, yr oedd pump ohonynt gyda'u partneriaid, ar draws tri safle yn ystod yr archwiliad. Cyfwelwyd â rhai cyn yr enedigaeth a rhai ar ôl yr enedigaeth. Roedd un wedi clywed am oruchwyliaeth ar ôl darllen ei chofnodion ei hun, ac roedd un arall wedi gweld gwybodaeth ar hysbysfwrdd. Mae hyn yn duedd gadarnhaol yn dilyn archwiliadau blaenorol. Pan ofynnwyd â phwy fyddent wedi cysylltu pe bai ganddynt bryder, awgrymodd yr holl fenywod y byddent wedi bod yn gyfforddus i leisio pryderon gyda staff eraill o fewn gwasanaethau mamolaeth. Yn nodweddiadol, gwnaethant ddweud y byddent yn ffonio eu canolfan geni.

Roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r gofal yr oeddent wedi'i dderbyn, ac wedi gwerthfawrogi eu bydwragedd cymunedol a'u bydwragedd yn yr ysbyty. Dim ond un fenyw yr oedd arni angen man geni gwahanol i'r un a ddewiswyd ganddi'n flaenorol, ond roedd hi o'r farn bod yr holl staff wedi cyfathrebu'n dda â hi drwy gydol y broses hon.

Cafodd nifer o fydwragedd eu nodi am y gofal rhagorol yr oeddent wedi'i ddarparu; yn benodol, nododd un fenyw ei bod hi a'i baban wedi derbyn sylw drwy gydol y nos yn dilyn toriad Cesaraid argyfwng. Roedd y ddynes yn teimlo ei bod hi wedi derbyn gofal un i un o ansawdd uchel iawn. Yn benodol, roedd y rhan fwyaf o'r menywod a'u partneriaid wedi gwerthfawrogi bod eu bydwragedd wedi cymryd amser i fod yn gysurol a chefnogol, ac wedi gwrandao'n astud ar y ddynes a'i phryderon. Ni wnaeth y defnyddwyr gwasanaeth awgrymu unrhyw ffyrdd yr oeddent yn dymuno i wasanaethau mamolaeth gael eu gwella.

Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn ddwla hefyd sy'n gwasanaethu'r bwrdd hwn a byrddau iechyd eraill. Cadarnhaodd fod o leiaf un Goruchwylwr Bydwragedd yn mynd i gyfarfodydd yn rheolaidd ac maent wedi disgrifio eu gwaith gyda menywod mewn ffordd glir a defnyddiol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn gweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd ac yn adrodd yn ôl ar themâu a thueddiadau defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n teimlo bod y tîm Goruchwylwr Bydwragedd ar gael iddi hi ac i ddefnyddwyr gwasanaeth hefyd, a'i fod yn cyfrannu ac yn cyfathrebu'n dda mewn cyfarfodydd, ac yn weledol ac ar gael yn yr amgylchedd clinigol. Wrth iddi gadeirio'r cyfarfodydd, fe nodwyd bod

Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn sicrhau y gwrandewir ar storïau menywod a theuluoedd. Mae'r rhain yn gadarnhaol ac yn heriol, ac yn cael eu disgrifio fel 'pwerus' gan uwch staff. Mae'n ymddangos bod y grŵp yn cael ei redeg yn dda ac yn canolbwyntio llawer ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Teimlai Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth y gellir gwneud menywod yn fwy ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan y Goruchwylwyr Bydwagedd a'u swyddogaeth.

Roedd y Cadeirydd wedi cael ei hysbysu ynghylch y newidiadau sydd ar ddod i oruchwyllo fel rhan o'r broses archwilio, a oedd wedi bod yn fuddiol wrth raeadr'u wybodaeth i fenywod a'u teuluoedd. Dywedodd y byddai cael gwared ar fynediad uniongyrchol at Oruchwyllydd Bydwagedd i fenywod yn anffodus. Mae'r Cadeirydd yn awyddus i wybod sut y bydd y swydd eiriolaeth i fenywod yn cael ei dwyn ymlaen i'r model newydd.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn gweld tystiolaeth o arfer da ac mae gwelliannau yn parhau. Mae agweddau o ran goruchwyllo a chefnogaeth dros ddewis menywod yn gwella hefyd o fewn y bwrdd iechyd. Mae cyfeiriad a gwelliannau'r dyfodol yn cynnwys cysylltu'n fwy â'r cyfryngau cymdeithasol, efallai drwy greu sesiynau 'cwrdd â goruchwylwr' ar-lein, a sicrhau bod yr wybodaeth ynglŷn â newidiadau i oruchwyliaeth yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol i fenywod a theuluoedd. Dywedodd cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth fod angen i ddewis menywod fod yn ganolog i newidiadau model craidd goruchwyllo bydwagedd.

Amgylchedd clinigol

Roedd yr amgylcheddau clinigol wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn rhoi argraff dda. Rhoddwyd ystyriaeth o ran y cynllun i anghenion uniongyrchol menywod a'u teuluoedd. Mae gwybodaeth berthnasol ar gael am oruchwyliaeth, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, yn yr ardaloedd cyn geni ac ôl-enedig ym mhob un o'r tri safle, gan gynnwys bwrdd dwyieithog buddiol, sy'n welliant clir o ran cyfathrebu ynglŷn â swyddogaeth y Goruchwylwyr Bydwagedd.

Gwefan

Mae adran mamolaeth gwefan y bwrdd iechyd yn cynnwys gwybodaeth glir ac o ansawdd uchel am oruchwyllo bydwagedd, a rhif ffôn llinell ar alwad 24 awr Cymru gyfan. Mae'r wybodaeth hon yn cyfeirio at fenywod a'u teuluoedd, ac mae'n berthnasol ac yn benodol. Mae'r wefan yn canolbwyntio llawer mwy ar ddefnyddwyr gwasanaeth o'i chymharu ag archwiliadau blaenorol. Dywedwyd wrth y tîm adolygu hefyd bod rhagor o ddatblygiadau ar y gweill i'r wefan ac mae nifer uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi rhoi adborth er mwyn paratoi ar gyfer hyn. Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i adborth menywod er mwyn ymgysylltu'n fwy â'r bwrdd iechyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Byddai'n ddefnyddiol darparu dolen i adran Goruchwyliaeth Bydwagedd yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar wefan AGIC. Mae amgylcheddau'r ysbytai yn achub ar unrhyw gyfle i gyfathrebu ar-lein gyda'r bwrdd iechyd, gan gynnwys rhoi cyfeiriadau'n rheolaidd drwy ddefnyddio codau QR, sy'n caniatáu mynediad cyflym i ddefnyddwyr gwasanaeth at ragor o wybodaeth.

Bydwagedd

Roedd pob un o'r deg bydwaig y cyfwelwyd â nhw'n gadarnhaol iawn am oruchwyllo a'r Goruchwylwyr Bydwragedd, a dywedwyd eu bod yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Roedd dau o'r bydwragedd y siaradwyd â nhw wedi cael profiad o'r broses ymchwilio a nodwyd bod y ddau o'r farn bod y Goruchwylwyr Bydwragedd lleol a gymerodd rhan yn gefnogol, er bod y broses yn cynnwys heriau i'r unigolyn. Roedd yr holl fydwragedd a oedd wedi mynychu sesiynau goruchwyliaeth grŵp wedi ystyried eu bod yn fuddiol, gan ddweud bod yr hyn a ddysgwyd gan gymheiriaid, a'r ddealltwriaeth o ran safbwyntiau pobl eraill (megis pan oeddent yn cael eu trosglwyddo i'r ward esgor yn ystod cyfnodau pan oedd galw mawr), yn ddefnyddiol ar gyfer eu datblygiad a'u gwaith tîm. Roedd yr holl fydwragedd yn ymwybodol na fyddai goruchwyliaeth bellach yn statudol, ond byddai'r swyddogaeth yn parhau, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y defnydd o oruchwyliaeth grŵp yn debygol o barhau.

Cyfwelwyd â dwy fydwaig a oedd yn arwain y ffordd o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn y bwrdd iechyd ac roeddent o'r farn bod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn weledol er bod y tri safle wedi'u gwasgaru. O gymorth yn hyn o beth yw'r sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus, sy'n cael eu cynnal 30 waith y flwyddyn ac sy'n cynnwys nifer o Oruchwylwyr Bydwragedd. Mae cymysgedd o gymorth o fewn y swyddfa a phresenoldeb mewn mannau clinigol ac mae switsfwrdd yr ysbyty yn ddefnyddiol iawn o ran cael gafeol ar Oruchwylwyr Bydwragedd os oes angen. Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn gefnogol o ran ailddilysu a nodwyd bod gweld portffolios enghreifftiol yn helpu. Mae hyfforddiant cadarnhau wedi bod yn werthfawr hefyd. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn gefnogol i fydwragedd, a bydd hyn yn bwysig wrth fynd ymlaen gan eu bod nhw eisoes yn arddangos y rhinweddau sy'n ofynnol ar gyfer y swyddogaeth newydd. Yn y dyfodol, mae'r bydwragedd yn rhagweld, wrth i'r swyddogaeth gael ei rheoleiddio llai, y byddant yn gallu canolbwyntio ar hyrwyddo gofal gwell, gan na fydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymchwilio a byddai amser ar gael ganddynt i gefnogi menywod. Roedden nhw, yn debyg i'r holl fydwragedd y cyfwelwyd â nhw, yn gadarnhaol iawn o'r ffaith bod goruchwyliaeth grŵp yn mynd i barhau. Roeddent yn awyddus y byddai'r model newydd yn amddiffyn oriau bydwragedd ar gyfer goruchwyliaeth a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Roedd gan y ddau fyfyrwr-fydwaig y cyfwelwyd â nhw ddealltwriaeth hynod o dda ynghylch swyddogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd ac yn gwybod yn fanwl gywir pa sefyllfa oedd byddai'n gwneud iddynt gysylltu â Goruchwyllydd Bydwragedd neu bryd y gallent awgrymu y byddai menyw neu ei theulu yn dymuno gwneud hynny. Roedden nhw'n ymwybodol o newidiadau i oruchwyliaeth statudol, ond nid oeddent yn ymwybodol o'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Mae gan un myfyrwr sesiwn wedi'i threfnu â Goruchwyllydd Bydwragedd ar gyfer y tymor nesaf. Roedd eu lefel dda o wybodaeth yn dod o'u mentoriaid, a siaradodd yn gadarnhaol ac yn ddeallus ynghylch swyddogaeth Goruchwyllydd Bydwragedd.

Uwch-fydwragedd a bydwragedd risg

Roedd y cyfarfod gyda staff rheoli risg ac uwch staff eraill yn werthfawr o ran triogli safbwynt yr archwiliad. Roeddent yn wybodus ynglŷn â'r newidiadau i oruchwyliaeth bydweigiaeth ac y byddai hwn yn fodel a arweinir gan y bwrdd iechyd. Roeddent yn gwerthfawrogi bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn llawn amser ac yn weledol ac yn gefnogol. Ar hyn o bryd, mae angen i'r gwasanaeth fod yn eithaf ymatebol, ond gallai

ddod yn fwy rhagweithiol wrth i amser ganiatáu hynny o dan y model newydd. Ystyrir bod goruchwyliaeth grŵp wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Bydd yr ymgorffori tebygol o raglenni goruchwyllo i systemau gallu a disgyblu presennol yn werthfawr. Bydd hyn yn arwain at lai o waith sy'n cael ei ddyblygu a llai o bwysau ar unrhyw fydwraig sy'n cymryd rhan. Mae rheolwyr yn ymwybodol o'r lefelau uchel o fewnbwn sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan unrhyw gofrestrai yn dilyn digwyddiad. Derbyniwyd adborth hefyd a oedd yn nodi gan nad oedd darpariaeth ar alwad 24/7 ar gyfer menywod, bydd angen i reolwyr strwythurau ar alwad y bwrdd iechyd ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac maen nhw eisoes yn ymdrin â galwadau brys gan fenywod a'u teuluoedd. Yn y bwrdd iechyd hwn, mae hyn wedi digwydd bob amser i raddau mwy neu lai, ac felly mae fframwaith wedi'i osod pe bai ei angen. Ar hyn o bryd, mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth rai llwybrau i hysbysu'r bwrdd iechyd os nad ydynt yn fodlon ar eu gofal, e.e. Goruchwylwyr Bydwagedd ar alwad a'r Gwasanaeth Cyswllt Cynghori Cleifion (PALS). Roedd un ymatebwr o'r farn bod y system bresennol o ymateb yn brydlon mewn gwirionedd yn datrys sefyllfaoedd cymhleth cyn iddynt ddwysáu, sy'n gwella canlyniadau. Roedd uwch staff yn teimlo yn y dyfodol, gyda llai o bwyslais ar reoleiddio ac ymchwilio, gall y Goruchwylwyr Bydwagedd fod yn eiriolwyr bydwagedd pe byddai atgyfeiriadau o ran ymarfer.

Y Tîm Goruchwylwyr Bydwagedd

Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn gweithio'n dda ac yn gadarnhaol â'i gilydd, ac mae pob un ohonynt yn dod â'u cryfderau eu hunain ac yn gwerthfawrogi dulliau ei gilydd. Maen nhw'n cael eu disgrifio fel hygyrch, cefnogol a gweledol i fydwagedd a staff eraill ar draws y bwrdd iechyd. Maen nhw'n ymwneud yn dda ac yn gadarnhaol â'r holl staff. Maen nhw'n deall cyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol ac yn awyddus i gyfrannu at y broses o'i ffurfio a'i gweithredu. Mae'n ymddangos fel eu bod nhw wedi'u hymgorffori ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y bwrdd iechyd.

8 Crynodeb o'r Argymhellion

Cydymffurfio â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Yn anffodus, nid oedd y Cyfarwyddwr Nyrsio yn gallu bod yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad, ond fe enwebodd cynrychiolydd ar ei ran. Trafodwyd darpariaeth goruchwyliaeth effeithiol gan yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gyda Chyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Phrofiad y Claf, a ddywedodd ei bod hi wedi'i sicrhau bod yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn gallu cyflawni ei swyddogaeth o fewn y bwrdd iechyd a bod ganddo weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer adrodd i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ei bod hi'n hyderus y gallai'r bwrdd iechyd weithio gyda'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol a'i bod yn fodlon ar ba mor llyfn yw'r broses.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ei bod hi wedi'i sicrhau bod yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn effeithiol wrth godi pryderon a bod y fframwaith

dangosyddion perfformiad allweddol yn broses dda. Dywedodd hefyd y byddai'n codi cwestiynau mewn perthynas â llywodraethu o fewn y model goruchwyllo newydd, ac yn ei herio.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ei bod hi wedi'i sicrhau o ran cynaliadwyedd y model goruchwylloeth presennol o fewn y bwrdd iechyd o ganlyniad i hyblygrwydd y Pennaeth Bydwreigiaeth a Goruchwylwyr Bydwagedd. Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio hysbysu'r tîm archwilio ei bod hi'n ymwneud cryn dipyn â'r model Diogelu at y Dyfodol ac mae'n fodlon ar sut mae'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol wedi newid goruchwylloeth. Dywedodd hefyd ei bod hi'n gobeithio parhau i fod yn rhan o oruchwylloeth ac agweddau llywodraethu'r model newydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio fod proffil y bwrdd iechyd wedi newid yn sylweddol a bod ganddo weledigaeth, a bod yn rhaid i'r bwrdd iechyd ganolbwyntio ar fonitro goruchwylloeth yn y dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth ei bod hi'n fodlon bod y tîm o Oruchwylwyr Bydwagedd lleol yn codi pryderon yn effeithiol gan eu bod nhw'n cymryd rhan mewn adolygiadau o ddigwyddiadau ac yn gallu rhannu eu pryderon oherwydd hyn. Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn fodlon hefyd bod y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddi ynglŷn â themâu a thueddiadau sy'n codi o'r gwaith goruchwylloeth grŵp, gan eu bod nhw'n mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd ac yn trosglwyddo'r wybodaeth yn ôl ati hi.

Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth fod cyfathrebu yn ystod ymchwiliadau goruchwyllo yn amrywiol. Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth hefyd y bu rai adegau pan oedd yr AGLI a'r bwrdd iechyd wedi dyblygu rhannau o ymchwiliadau a gellid gwella ar hyn. Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth hefyd fod y rhan fwyaf o'r Goruchwylwyr Bydwagedd yn esbonio iddi hi lle mae ymchwiliadau'r bwrdd iechyd wedi cyrraedd ac maent yn gwneud yn dda iawn yn eu swyddi. Gwnaeth yr AGLI ddarganfod bod tystiolaeth o gyfarfodydd bob mis rhwng y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd.

Rhodddwyd sicrwydd i'r Pennaeth Bydwreigiaeth bod y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn rhyngweithio â phrosesau llywodraethu'r sefydliad gan fod Goruchwylwyr Bydwagedd yn bresennol mewn cyfarfodydd risg bob amser, ac maent yn adolygu ac yn cyfrannu at gynlluniau gweithredu. Cefnogwyd hyn gan yr uwch-fydwagedd a'r Fydwaig Risg.

Gwnaeth y Pennaeth Bydwreigiaeth hefyd hysbysu'r tîm archwilio bod y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd lleol wedi cefnogi'r bydwagedd yn effeithiol drwy aiddilysiad ac roedd hi'n synnu nad oedd yn ymddangos bod angen cymaint o gymorth ar y bydwagedd ag yr oedd hi wedi meddwl y byddai arnynt ei angen.

Nid oedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn gallu rhannu'r union ganran o fydwagedd o fewn y sefydliad a oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, ond roedd hi wedi'i sicrhau ei bod hi oddeutu 95 i 100%, gan fod angen ystyried absenoldeb trwy ganiatâd ac oherwydd salwch.

Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig o ran goruchwyllo ac mae'n awyddus i gefnogi llwyddiant y model newydd. Nid oedd gan y

Pennaeth Bydwreigiaeth unrhyw awgrymiadau i wella goruchwyliaeth ond roedd y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn agored iawn i awgrymiadau a'u bod nhw'n cynnig cymorth ac yn rhan o'r tîm.

Yn dilyn rhaglen archwilio 2015-16, chwiliwyd am wybodaeth i ddangos bod y meysydd canlynol y nodwyd bod angen eu gwella wedi derbyn sylw:

- Bydd gwefan y bwrdd iechyd yn cynnwys doler ar gyfer y daflen i ddefnyddwyr "Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?"
- Hoffai Goruchwylwyr Bydwagedd newydd a'r rhai sy'n gweithio ar batrwm gylch barhau i elwa ar hyfforddiant strategol a datblygiad
- Cryfhau cysylltiadau â Phrifysgol De Cymru i ddiwallu'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer myfyrwyr-fydwagedd
- Bydd Goruchwylwyr Bydwagedd yn cefnogi'r agenda ailddilysiad yn weithredol.

Canfuwyd tystiolaeth bod y wefan wedi gwella llawer a bod y Goruchwylwyr Bydwagedd yn cefnogi'r agenda ailddilysu. Mae posibilrwydd o ailsefydlu cysylltiadau gyda Phrifysgol De Cymru a bydd y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn cysylltu â'r brifysgol a thîm Goruchwylwyr Bydwagedd Cwm Taf i drefnu hyn yn y dyfodol agos. Mae sesiwn datblygiad personol wedi cael ei threfnu ar gyfer Goruchwylwyr Bydwagedd Cymru Gyfan ym mis Chwefror 2017 gyda Cathy Warwick, cynrychiolydd y Cyfarwyddwr Nyrsio, a gynigiodd ei chymorth yn garedig yn ystod ymweliad archwilio'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol. Felly, bydd yr holl feysydd sydd angen eu gwella yn derbyn sylw.

Allan o'r chwech o Reolau a Safonau Bydwagedd a archwiliwyd, cafodd pedwar eu bodloni, roedd un na chafodd ei bodloni, ac roedd un yr oedd angen ei gwella. Mae gan y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd gynllun gweithredu ar waith i ymdrin â'r adolygiadau goruchwyllo blynyddol nad ydynt wedi'u cwblhau ac i ddechrau cydymffurfio 100% eto yn y dyfodol agos.

Roedd tri o ymchwiliadau goruchwyllo wedi cael eu cynnal gan y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd dros y 12 mis diwethaf. Dim ond un o'r tri a gwblhawyd o fewn y fframwaith amser a argymhellir. Cynhaliwyd trafodaethau yn ystod yr archwiliad mewn perthynas â'r rhesymau pam nad oedd y Goruchwylwyr Bydwagedd ledled Cymru yn cwrdd â'r targed 60 diwrnod ar gyfer cwblhau ymchwiliadau. Un o'r ffactorau y credir ei fod yn cyfrannu at hyn yw nifer y Goruchwylwyr Bydwagedd newydd sydd wedi dechrau ymarfer ac sydd angen cymorth ychwanegol arnynt felly wrth ddatblygu adroddiadau i'r safon uchel sy'n ofynnol. Credir bod oedi wrth dderbyn offer Technoleg Gwybodaeth megis gliniaduron yn cael effaith hefyd ar amseroldeb cwblhau adroddiadau gan Oruchwylwyr Bydwagedd sydd wedi dechrau ymarfer, gan fod arnynt angen teithio i swyddfeydd Llywodraeth Cymru i gael gafael ar ddogfennau'r ymchwiliad. Mae oedi wrth ddogfennu gliniaduron a'r posibilrwydd o oedi wrth gwblhau ymchwiliad wedi cael eu huwchgyfeirio at AGIC fel risg. Roedd dau o'r tri Goruchwylwyr Bydwagedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi dechrau ymarfer yn y 12 mis diwethaf ac felly fe roddwyd ystyriaeth i'r rhesymau hyn o ran eu perfformiad.

Ymarfer Bydwreigiaeth

Cafwyd adborth cadarnhaol gan chwech o ddefnyddwyr gwasanaeth fel y nodwyd yn adroddiad yr adolygydd lleyg (Adran 8).

Enwyd bydwreigedd penodol gan fenywod a'u teuluoedd a oedd wedi darparu gofal rhagorol. Bydd yr adolygydd lleyg yn anfon yr enwau hyn at y Pennaeth Bydwreigiaeth ac mae tîm yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn gofyn eu bod yn derbyn yr adborth cadarnhaol hwn yn bersonol.

Materion sefydliadol

Gwnaeth pob aelod o dîm yr Awdurdod Goruchwylio Lleol sylwadau am yr amgylchedd croesawgar a hapus o fewn y bwrdd iechyd, a oedd yn nodedig iawn.

Canfu tîm yr Awdurdod Goruchwylio Lleol fod y sefydliad yn ei gyfanrwydd yn ymddangos yn wybodus iawn ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y model goruchwylio newydd ac roedd cefnogaeth gref o ran sicrhau ei lwyddiant yn y dyfodol.

Dylai rhagor o hysbysfyrdau sy'n tynnu sylw at oruchwyliaeth a sut i gysylltu â Goruchwylydd Bydwreigedd fod ar gael mewn mannau clinigol.

Mae angen diweddarau'r wefan hefyd i gynnwys yr wybodaeth hon a'r dolenni i daflen yr Awdurdod Goruchwylio Lleol 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth?' ac adroddiad blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol.

9 Monitro

Mae'n ofynnol cyflwyno cynllun gweithredu i'r AGLI cyn pen chwe wythnos ar ôl cael yr adroddiad hwn a'r argymhellion. Os oes unrhyw feysydd 'nad ydynt wedi'u cyflawni' yn y cynllun gweithredu, dylai'r cynllun gweithredu ynglŷn â'r rhain gael ei ddiweddarau bob chwarter a'i gyflwyno i'r AGLI i roi gwybod iddo am y cynnydd a wnaed. Ar ôl i'r statud gael ei ddileu, a gynlluniwyd ar gyfer mis Mawrth 2017, bydd y gwaith o fonitro'r cynllun gweithredu yn cael ei drosglwyddo i Bennaeth Bydwreigiaeth Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Nodwyd y canlynol fel meysydd o arfer da gan dîm archwilio'r Awdurdod Goruchwylio Lleol:

- Mae tîm y Goruchwylwyr Bydwreigedd yn gefnogol, yn weledol ac yn hygyrch.

- Mae gan dîm y Goruchwylwyr Bydwagedd gysylltiadau da â llywodraethu clinigol.
- Mae goruchwyliaeth grŵp yn cael ei gwerthfawrogi llawer gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.
- Mae gan dîm y Goruchwylwyr Bydwagedd gysylltiadau da â datblygu ymarfer.
- Mae tîm y Goruchwylwyr Bydwagedd wedi cyhoeddi'r cynigion o ran dyfodol goruchwyliaeth i'r sefydliad ac wedi sicrhau bod gwybodaeth briodol gan bawb.

Mae tîm archwilio'r AGLI wedi tynnu sylw at yr argymhellion a ganlyn fel meysydd sydd angen eu gwella:

- Bydd angen cwblhau cant y cant o'r Adolygiadau Goruchwyllo Blynyddol, a chynnal y ganran.
- Mae angen i dîm y Goruchwylwyr Bydwagedd gofnodi eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gronfa ddata'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol, yn unol â'u Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
- Dylai llwythi achosion tîm y Goruchwylwyr Bydwagedd gael eu hadolygu yn y dyfodol agos i sicrhau tegwch o ran llwyth gwaith oherwydd nifer y bydwagedd sydd newydd gymhwyso.
- Mae angen i waith mewn partneriaeth gyda thîm Goruchwylwyr Bydwagedd Cwm Taf a Phrifysgol De Cymru wella er mwyn gwella rhyngweithio gyda myfyrwyr-fydwagedd.

10 Casgliad

Mae'r AGLI yn parhau i fod yn ddiolchgar i bob Goruchwylwr Bydwagedd, a fu yn y swydd ac sy'n ei gwneud yn awr, am eu hadborth a'u hymrwymiad i ddarparu goruchwyliaeth statudol, a'r cyfraniad y maent yn ei wneud o ran helpu bydwagedd i helpu menywod.

Hoffai'r AGLI ddiolch hefyd i Sue Jose, sy'n gadael ei swydd yn Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ym mis Hydref 2016, a hoffai groesawu Lindsey Hilldrup, a fydd yn ymgymryd â'r swydd yn ei lle.

Yn sicr, yr her fwyaf o ran darparu goruchwyliaeth statudol ledled y DU yn y 12 mis diwethaf fu cynnal y momentwm a'r ymrwymiad i'r swydd tra bo newid deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn dod i rym. Fodd bynnag, mae'r AGLI a'r Tasglu yng Nghymru yn dal i fod mewn sefyllfa i arwain y ffordd â model goruchwyllo newydd, gan adeiladu ar sail llwyddiannau presennol a chymorth cenedlaethol i gynnal rhagoriaeth mewn arferion clinigol.

11. Atodiadau

11.1 Atodiad 1 – Rhaglen Archwiliad Blynyddol yr AGLI

Rhaglen ar gyfer Archwiliad Blynyddol o Safonau ar gyfer Goruchwyllo Bydwagedd

Dyddiad: 18 – 19 Hydref 2016

Lleoliad: Dydd Mawrth, 18 Hydref 2016 – Ysbyty Castell-nedd Port

Talbot/Ysbyty Singleton

Dydd Mercher, 20 Hydref 2016 – Ysbyty Tywysoges Cymru

Ysbyty Castell-nedd Port Talbot – Diwrnod 1				
Ystafell Rianta AM				
Rhif	Amser	Gweithgaredd		
1	9.30am	Cyrraedd a choffi		
2	10am	<p>Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI</p> <p>Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI ynghylch diben y broses o archwilio goruchwyliaeth yn 2016/17 a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol fel y'i pennir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth</p> <p>Gwahoddwyd: Cyfarwyddwr Nyrsio Pennaeth Bydwreigiaeth ac Uwch Fydwagedd Cyfarwyddwr Clinigol Arweinwyr Llywodraethu/Risg yr adran famolaeth a'r bwrdd iechyd Bydwraig arweiniol ar gyfer addysg Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth/Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer gwasanaethau mamolaeth Cynrychiolwyr y gweithle</p>		
3	10.30am	<p>Cyflwyniad trosolwg 15 munud gan Oruchwylwyr Bydwagedd lleol a fydd yn cynnwys:</p> <p>I'w drefnu 15 munud o Holi ac Ateb</p>		
4	11am	Egwyl		
5	11.15am	<table border="1"> <tr> <td><u>Tîm Adolygu A</u> Cyfarfod â chynrychiolydd y Cyfarwyddwr Nyrsio</td> <td><u>Tîm Adolygu B</u> Cyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth / Cysylltydd y Cyngor Iechyd Cymuned</td> </tr> </table>	<u>Tîm Adolygu A</u> Cyfarfod â chynrychiolydd y Cyfarwyddwr Nyrsio	<u>Tîm Adolygu B</u> Cyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth / Cysylltydd y Cyngor Iechyd Cymuned
<u>Tîm Adolygu A</u> Cyfarfod â chynrychiolydd y Cyfarwyddwr Nyrsio	<u>Tîm Adolygu B</u> Cyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth / Cysylltydd y Cyngor Iechyd Cymuned			

6	11.45am	<u>Tîm Adolygu A</u> Cyfarfod â'r Pennaeth Bydwreigiaeth	<u>Tîm Adolygu B</u> Cyfarfod â chynrychiolydd o Brifysgol Abertawe
7	12.15pm	<u>Tîm Adolygu A</u> Cyfarfod â Bydwraig Arweiniol Canolfan Geni Ysbyty Castell- nedd Port Talbot/Uned Famolaeth Ysbyty Singleton	<u>Tîm Adolygu B</u> Cyfarfod â Bydwraig Arweiniol Uned Famolaeth Ysbyty Singleton
8.	12.45pm	<u>Tîm Adolygu A</u> Cyfarfod â Bydwraig Arweiniol Llywodraethu / Bydwraig Risg	<u>Tîm Adolygu B</u> Cwrdd â Bydwragedd/Myfyrwyr- Fydwragedd ac ymweld â Chanolfan Geni Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
	1.30pm	Teithio i Ysbyty Singleton a Chinio	
Diwrnod 1 – Dydd Mawrth, 18 Hydref 2016 – PM Ysbyty Singleton Gwirio tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol			
10	2.45pm	<u>Tîm Adolygu A</u> Cyfarfod â thair bydwragedd	<u>Tîm Adolygu B</u> Cyfarfod â thair myfyrwyr-fydwragedd (Prifysgol Abertawe)
11	3.15pm	Tîm Adolygu A Ymweld â'r uned a siarad â menywod/ partneriaid	<u>Tîm Adolygu B</u> Cyfarfod â bydwragedd sydd wedi bod yn rhan o ymchwiliadau
	3.45pm	Coffi	Coffi
	4pm	Timau adolygu yn cwrdd	

**Ysbyty Tywysoges Cymru – Diwrnod 2
Dydd Mercher, 19 Hydref 2016**

Ystafell Seminar Mamolaeth

1	9.30am	Cyrraedd a choffi	
2	10am	Tîm Adolygu A Cyfarfod â Carolyn Williams, Bydwraig Arweiniol Ysbyty Tywysoges Cymru	Tîm Adolygu B Cyfarfod â Dawn Apsee, Bydwraig Arweiniol Intrapartwm
3	10.30am	Tîm Adolygu A_ Ymweliad â ward esgor	Tîm Adolygu B Ymweliad â'r clinig cyn geni
Coffi			
4	11.15am	Tîm Adolygu A <u>Cyfarfod â phedair bydwragedd a leolir mewn ysbytai</u>	Tîm Adolygu B Cyfarfod â phedair bydwragedd: - 2 o fydwragedd ysbyty - 2 o fydwragedd cymunedol
5	11.45am	Tîm Adolygu A Cyfarfod â myfyrwyr-fydwragedd (Prifysgol De Cymru)	Tîm Adolygu B Ymweld â Ward 12 i siarad â menywod a phartneriaid
	12.15pm	Cinio	
6	1.15pm	Tîmau adolygu'r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad	
7	2.30pm	Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Goruchwylwyr Bydwragedd a fydd yn cynnwys crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf	

11.2 Atodiad 2 – Holiadur yr AGLI

AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Archwiliad Blynyddol o'r Safonau ynghylch Goruchwyllo Bydwagedd

Tymor yr Hydref, 2016

Cyfweiliad â Goruchwylwyr Bydwagedd	Tystiolaeth a sylwadau'r tîm adolygu
Rheol 4. Hysbysiadau gan yr AGLI A ydych yn rheoli proses y Bwriad i Ymarfer yn unol â'r broses bresennol	Tystiolaeth: Newydd-ddyfodiaid i'r swydd Ymadawyr Trosglwyddiadau Dirymu'r Bwriad i Ymarfer Cronfa ddata'r AGLI – cyflwyno'n fisol
Ymateb	Sylwadau:
Rheol 5 Cwmpas yr ymarfer Sut rydych yn cynorthwyo bydwagedd i gyflawni Rheol 5: cwmpas eu hymarfer	Tystiolaeth Goruchwyliaeth grŵp Cynorthwyo bydwagedd i ddarparu dewisiadau i fenywod Cynorthwyo bydwagedd gyda Rhaglen Ymarfer yr AGLI/cynllun gweithredu ynghylch dulliau dysgu/myfyrio Pen bwrdd Bydwagedd mewn swyddi nad ydynt yn ymwneud â bydwreigiaeth
Ymateb	Sylw

<p>Rheol 6: Cofnodion A allwch ddweud wrthym am eich cynllun i drosglwyddo a/neu archifo cofnodion er mwyn paratoi ar gyfer dileu goruchwyliaeth statudol.</p>	<p>Tystiolaeth Caiff cofnodion eu cadw'n ddiogel Mae'r cofnodion yn cael eu paratoi ar gyfer eu trosglwyddo/sganio a'u lanlwytho</p>
<p>Ymateb</p>	<p>Sylw</p>
<p>Rheol 7 Mae goruchwyliaeth ar fydwagedd wedi'i chysylltu'n agos â llywodraethu clinigol a dylai fod yn rhan annatod o brosesau llywodraethu y tu mewn i'r awdurdod goruchwyllo lleol. A allwch ddarparu manylion ynglŷn â sut rydych yn cyflawni'r safon hon</p>	<p>Tystiolaeth Presenoldeb mewn cyfarfodydd rheoli risgiau clinigol, fforwm wardiau esgor, cyfarfod adolygu Datix, ymchwiliadau ar y cyd, adolygiadau o ddigwyddiadau anffafriol difrifol, darparu hyfforddiant gorfodol</p>
<p>Ymateb</p>	<p>Sylw</p>
<p>Rheol 7 – Llywodraethu A ydych yn teimlo eich bod yn gallu uwchgyfeirio pryderon at: Y sefydliad Yr AGLI A ydych yn teimlo bod eich pryderon yn cael ymateb priodol</p>	<p>Tystiolaeth</p>
<p>Ymateb</p>	<p>Sylwadau</p>
<p>Rheol 9 Sut rydych yn sicrhau eich bod yn gallu cael gafael ar y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd ar gyfer Bydwagedd dan hyfforddiant A sut rydych yn cynorthwyo'r broses o drosglwyddo o fod yn fyfyrwr i fod yn gofrestrai</p>	
<p>Ymateb</p>	<p>Sylwadau</p>

<p>Rheol 10 Cyhoeddi gweithdrefnau – ymchwiliadau goruchwyllo A ydych o'r farn eich bod yn barod mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant i gynnal ymchwiliadau yn unol â Rheol 10</p>	<p>Tystiolaeth Proses Ysgrifennu adroddiadau Mynediad at hyfforddiant Mynediad at systemau TG</p>
Ymateb	Sylw
Cyfweliad â'r Pennaeth Bydwreigiaeth	
<p>A ydych o'r farn fod eich timau Goruchwylwyr Bydwragedd yn mynegi pryderon yn briodol? Os nad ydych, a allwch awgrymu sut y gellir gwella hyn</p>	
Ymateb	Sylw
<p>O ystyried proses ymchwilio'r AGLI, pa mor fodlon ydych chi ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y broses o gyfathrebu gan y Goruchwylwr Bydwragedd sy'n ymchwilio • Y broses o gyfathrebu â'r Goruchwylwr Bydwragedd a enwir/sy'n cynorthwyo • Cysylltiadau rhwng yr AGLI a phrosesau sefydliadol 	
Ymateb	Sylw
<p>A ydych yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o sesiynau goruchwyliaeth grŵp</p>	
Ymateb	Sylw

A ydych yn fodlon bod y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn rhyngweithio'n effeithiol â phroses lywodraethu'r sefydliad	
Ymateb	Sylw
I ba raddau ydych yn cydymffurfio ar hyn o bryd o ran presenoldeb bydwagedd mewn hyfforddiant gorfodol?	
Ymateb	Sylw
Sut y mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn cynorthwyo'r broses aiddilysu ar gyfer bydwagedd yn eich sefydliad	
Ymateb	Sylw
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd)	
Ymateb	Sylwadau
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwagedd yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylw
Cyfweliad â'r Cyfarwyddwr Nyrsio	
A ydych wedi'ch sicrhau bod gan yr AGLI weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei rybuddio am bob risg sy'n gysylltiedig ag adroddiadau anffafriol yn sgil gwaith monitro allanol?	Rheol 7 Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol

Ymateb	Sylw
A allwch gadarnhau bod Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn gallu cyflawni ei swyddogaeth yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylw
A ydych wedi'ch sicrhau ynghylch cynaliadwyedd y model goruchwyliaeth presennol yn eich bwrdd iechyd	
Ymateb	Sylw
A ydych o'r farn fod yr AGLI yn effeithiol o ran crybwyll ac uwchgyfeirio pryderon a'i fod yn arfer ei rôl yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch yr ymarfer bydwreigiaeth yn eich sefydliad?	
Ymateb	Sylw
A ydych wedi'ch sicrhau ynghylch cynaliadwyedd y model goruchwyliaeth presennol yn eich bwrdd iechyd	
Ymateb	Sylw
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd)	
Ymateb	Sylwadau
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwreagedd yn	

eich sefydliad ar ôl dileu goruchwyliaeth statudol?	
Ymateb	Sylw
Bydwagedd ac Uwch-fydwagedd	
A yw Goruchwylwyr Bydwagedd yn amlwg yn yr amgylchedd clinigol? A fydech yn gwybod ble yn y bwrdd iechyd y gall Goruchwylwr Bydwagedd fod i'w gael? Sut y bydech yn cysylltu â Goruchwylwr Bydwagedd y tu allan i oriau?	
Ymateb	Sylw
A ydych yn gwybod sut y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn cynorthwyo'r broses ailddilysu?	
Ymateb	Sylw
A ydych yn gwybod sut y mae'r Goruchwylwyr Bydwagedd yn cyd-fynd â phroses lywodraethu'r bwrdd iechyd?	
Ymateb	Sylw
Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r newid arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylwadau
Yn eich barn chi, pa broblemau a fydd i'w cael o safbwynt y bwrdd iechyd yn ystod y broses o drosglwyddo o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylwadau

A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwagedd yn eich sefydliad ar ôl dileu goruchwyliaeth statudol?	
Ymateb	Sylw
Bydwagedd dan hyfforddiant	
A allwch ddisgrifio rôl y Goruchwylwr Bydwagedd a'r AGLI?	
Ymateb	Sylw
A ydych wedi cael cyswllt â Goruchwylwr Bydwagedd yn y 12 mis diwethaf? Os felly, am ba reswm?	
Ymateb	Sylw
A ydych yn gwybod sut i gysylltu â Goruchwylwr Bydwagedd?	
Ymateb	Sylw
A ydych yn ymwybodol o'r gofyniad statudol presennol i bob bydwaig fod â Goruchwylwr Bydwagedd a enwir?	
Ymateb	Sylw

Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r newid arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr (y bwrdd iechyd).	
Ymateb	Sylwadau

Rhestr wirio adolygwyr lleyg ar gyfer ymweliadau archwilio

Diben y ddogfen hon yw galluogi'r adolygwyr lleyg i gynnal eu hymweliadau archwilio mewn ffordd sy'n gyson yn y tîm, sy'n adlewyrchu ac yn adeiladu ar sail canfyddiadau archwiliad 2015/16, ac sy'n ymgorffori'r newidiadau y gwyddys y byddant i'w cael yn y dyfodol i'r drefn o oruchwyllo bydwragedd. Er bod y rhestr wirio hon yn cwmpasu nifer o feysydd, disgwylir i'r adolygwyr lleyg gyflwyno sylwadau hefyd am unrhyw beth arwyddocaol y maent yn credu bod angen tynnu sylw ato yn ychwanegol at gynnwys y rhestr wirio hon.

Mae'r rhestr wirio hon yn cynnwys saith adran:

Gwaith paratoi cyn archwilio

Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd

Cwestiynau i fydwragedd

Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd

Cwestiynau i uwch-reolwyr

Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr

Sylwadau am yr amgylchedd

Gwaith paratoi cyn archwilio

Adolygu'r wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynghylch Goruchwyllo Bydwragedd.

Ai'r rhif ar-alwad cywir a ddangosir?

A oes disgrifiad clir o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod?

A oes dolen i wefan yr AGLI (AGIC)?

A oes dolen i'r daflen ynghylch cyflawni ("Delivering for You")?

Ar hap, dewiswch un o'r lleoliadau lle y mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd gan ofyn am rif ar-alwad y goruchwyliwr bydwragedd.

Ai'r rhif ar-alwad cywir a roddir ichi?

Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd

Ein cyflwyno ein hunain ac egluro proses yr archwiliad.

1. Beth yw eich barn am y gofal a gawsoch gan fydwragedd drwy gydol eich beichiogrwydd a'r enedigaeth?
2. A oes unrhyw fydwraig a fu'n arbennig o barod i helpu a beth a wnaeth a oedd o gymorth yn arbennig?
Os enwir y fydwraig, a gawn drosglwyddo'r adborth hwn iddi / iddo?
3. A oes unrhyw beth yr hoffech ei newid, ar sail eich profiad?
4. A oes gennych chi, neu a gawsoch, unrhyw bryderon am unrhyw un o'r bydwragedd y cawsoch gyswllt â nhw?

Os ateboch 'oes' neu 'do' i Gwestiwn 4, **ewch i Gwestiynau 4a – 4h**; **os ateboch 'nac oes' neu 'naddo'**, ewch i Gwestiwn 5.

- 4a A ydych wedi crybwyll eich pryderon wrth unrhyw un? Os ateboch **naddo**, **ewch i 4e**
- 4b Os felly, i bwy?
- 4c Sut y gwnaethoch benderfynu crybwyll eich pryder wrth y person hwnnw?
- 4d A oeddech yn fodlon ar y canlyniad?

Os oedd gennych bryderon ond na wnaethoch eu crybwyll wrth neb

- 4e A oeddech yn dymuno crybwyll eich pryder?
- 4f Beth a wnaeth eich atal rhag dweud wrth rywun am eich pryder?
- 4g A ydych wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwragedd?
- 4h Eglurwch y rôl: a hoffech siarad â Goruchwyliwr Bydwragedd yn awr ynglŷn â'ch profiad?

5. Dychmygwch eich bod wedi cael pryder, er enghraifft fod arnoch eisiau math penodol o gynllun genedigaeth, a bod y fydwraig yn gwrthod ei

drafod neu'n bod yn negyddol iawn yn ei gylch. Beth y byddech chi wedi'i wneud?

6. Pe baech wedi siarad â rhywun am eich pryder, beth y byddech chi am iddo'i wneud ynglŷn â'r mater?

Cwestiynau i Fydwragedd

A gawsoch adolygiad goruchwylio blynyddol yn y 12 mis diwethaf?

A gafodd eich adolygiad goruchwylio blynyddol ei gwblhau yn ystod sesiwn goruchwyliaeth grŵp?

Os felly, faint a oedd yn rhan o'ch goruchwyliaeth grŵp?

A oedd ystod o fydwragedd yn yr oruchwyliaeth?

Beth a oedd o gymorth ichi yn yr oruchwyliaeth grŵp?

A oedd rhywbeth y gellid ei wella, yn eich barn chi?

Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp y buoch ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf?

A ydych yn teimlo'n fwy cadarnhaol neu'n llai cadarnhaol ynglŷn â goruchwyliaeth grŵp yn awr nag yr oeddech ar ôl eich profiad cyntaf o oruchwyliaeth grŵp?

Yn eich barn chi, beth fu'r fantais fwyaf o gyflwyno goruchwyliaeth grŵp?

A ydych wedi defnyddio rhif ar-alwad y Goruchwyliwr Bydwragedd i gysylltu â Goruchwyliwr yn y 6 mis diwethaf?

Os gwnaethoch, sut oedd y profiad? A wnaeth ddatrys eich problem ar y pryd?

Fel y gwyddoch, bydd y drefn oruchwylio'n newid yn y gwanwyn. Pa elfennau o oruchwyliaeth fel y mae yn awr yr hoffech iddynt gael eu cadw?

A oes rhywbeth yr hoffech i oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y model newydd arfaethedig o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr?

Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

A oes rhywbeth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?
A allwn drosglwyddo eich adborth i'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd?

Yn eich barn chi, pa rôl y bydd y Goruchwylwyr Bydwagedd yn ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwagedd

Pryd y byddwch yn cynnig goruchwyliaeth grŵp?

Beth yw'r manteision sy'n gysylltiedig â goruchwyliaeth grŵp, yn eich barn chi?

A oes unrhyw beth y byddech yn ei newid?

A allwch nodi enghraifft o rywbeth sydd wedi'i drafod mewn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad?

A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

Pa rôl rydych chi'n ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

O gofio'r newid arfaethedig i fodol o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, beth, yn eich barn chi, yw'r manteision i

- a. Goruchwylwyr Bydwagedd
- b. Bydwagedd
- c. Menywod a'r cyhoedd

Ac a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar Oruchwylwyr Bydwagedd, bydwagedd a menywod?

Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

Yn eich barn chi, beth y dylid ei roi ar waith i gymryd lle'r cymorth yr ydych yn ei gynnig i fenywod?

Cwestiynau i Uwch-reolwyr

Pa mor wybodus ydych chi yn glŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r drefn oruchwyllo yn awr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?

Beth yw'r heriau mwyaf, yn eich barn chi, o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?

Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu creu a sut bydd y rhain yn gwella neu'n newid yn y dyfodol?

Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynorthwyo menywod yn y dyfodol a fyddai'n cysylltu â goruchwylwr bydwagedd ar hyn o bryd?

Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth

Pa gyswllt sydd gennych chi â Goruchwylwyr Bydwagedd ar hyn o bryd?

Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw goruchwylwyr o ran cefnogi dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu ddygymod â phrofiadau anodd?

A ydych yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'r drefn o oruchwylwyo bydwagedd?

Yn eich barn chi, beth yw'r manteision sy'n gysylltiedig â'r model arfaethedig, yn arbennig o ran menywod a'u teuluoedd?

A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig?

Yn eich barn chi, beth sydd ei angen ar fenywod i sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain a chael cymorth pan fu pethau'n anodd?

Sylwadau am yr amgylchedd

Pan arsylwyd amynt:				
A yw gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwagedd wedi'i harddangos yn glir mewn ardaloedd cyhoeddus?				
A yw'r wybodaeth yn cynnwys y rhif ar-alwad Cymru gyfan cywir?				
A yw rôl y Goruchwyliwr Bydwagedd wedi'i disgrifio'n gywir yn y wybodaeth sy'n cael ei harddangos?				
A oes esboniad clir o'r amgylchiadau pan ddylai defnyddwyr gwasanaethau gysylltu â'r Goruchwyliwr Bydwagedd?				
A yw'r daflen Cymru gyfan ynghylch Goruchwylwyr Bydwagedd ar gael mewn ardaloedd cyhoeddus?				
Sylwadau ychwanegol ynghylch amlygrwydd				

goruchwyliaeth.				
Sylwadau ychwanegol am yr amgylchedd				

11.3 Atodiad 3 – Holiadur yr Adolygydd Lleyg

Gwaith paratoi cyn archwilio Bwrdd Iechyd:

Adolygwch y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ynghylch goruchwyllo bydwagedd.

Ai'r rhif ar-alwad cywir sy'n cael ei ddarparu? Oes? Ie Nage

A oes disgrifiad clir o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod? Oes Nac oes

A oes dolen i wefan yr AGLI (AGIC)? Oes Nac oes

A oes dolen i'r daflen ynghylch cyflawni ("Delivering You")? Oes Nac oes

Nodiadau

Ar hap, dewiswch un o'r lleoliadau lle y mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd gan ofyn am rif ar-alwad y goruchwyliwr bydwagedd.

Y lleoliad a alwyd: Y rhif a ddefnyddiwyd:

Ai'r rhif ar-alwad cywir a roddir ichi? Ie Na

Nodiadau

Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd

Bwrdd Iechyd:

Lleoliad:

1. Ble / sut y cawsoch eich gofal yn ystod eich beichiogrwydd? A fuoch yn fodlon ar y gofal hwn?
2. A oedd unrhyw beth a oedd yn dda iawn ynglŷn â'ch gofal? Neu unrhyw un a fu'n arbennig o barod i helpu?
3. A oes unrhyw beth y gellid ei wneud yn well?
4. A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch unrhyw un o'r bydwragedd y cawsoch gyswilt â nhw?

5. Os cawsoch broblem yng nghyswllt bydwaig, neu eich gofal yn gyffredinol, a ydych yn gwybod at bwy y gallech droi neu i ble y gallech fynd i gael cymorth / cyngor?

6. A ydych wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwagedd? Eglurwch pwy ydynt / beth ydynt a beth y maent yn gallu ei wneud. Darparwch wybodaeth am sut i ddod o hyd i'w manylion cyswllt yn y bwrdd iechyd / lleoliad penodol.

Cwestiynau i Fydwagedd

Enw:

Swydd:

Goruchwyliaeth Grŵp

1. A gawsoch adolygiad goruchwyllo blynyddol yn y 12 mis diwethaf, ac a gafodd ei gwblhau mewn goruchwyliaeth grŵp?
2. Trosolwg o'u goruchwyliaeth grŵp (faint, sut y'i trefnwyd, ystod y bydwagedd, unrhyw beth o gymorth, unrhyw beth y gellid ei wella?)
3. Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp y buoch ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf? Mwy cadarnhaol neu'n llai cadarnhaol yn eu cylch? Y fantais fwyaf? Yr agwedd negyddol fwyaf?

Goruchwyliaeth ar-alwad

4. A ydych wedi defnyddio rhif ar-alwad y Goruchwyliwr Bydwagedd i gysylltu â Goruchwyliwr yn y 6 mis diwethaf? Os ydych, sut oedd y profiad? A wnaeth ddatrys eich problem ar y pryd?

Ymchwiliadau

5. Beth yw eich barn ynglŷn â rôl y Goruchwyliwr Bydwagedd mewn ymchwiliadau? Cadarnhaol / negyddol? A ydynt yn helpu i leihau risgiau / dysgu gwersi? A gawsoch brofiad uniongyrchol o ymchwiliad?

Newidiadau i'r Drefn Oruchwylio

6. A ydych yn gwybod am y newidiadau i'r drefn oruchwylio a fydd ar waith erbyn y gwanwyn nesaf? A ydych yn teimlo'n wybodus ynglŷn â'r newidiadau? A oes gennych unrhyw bryderon am y model newydd arfaethedig o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr? Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

7. Pa elfennau o'r model goruchwylio presennol y dylid eu cadw, yn eich barn chi? A oes unrhyw beth yr hoffech i oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

8. A ydych yn gwybod sut y bydd menywod yn cael eu cynorthwyo o dan y model newydd?

Adborth

9. A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi? A allwn drosglwyddo eich adborth i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd?

Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd

Goruchwyliaeth Grŵp

1. Sgwrs gyffredinol am eu goruchwyliaeth grŵp, sut y mae'n cael ei threfnu, presenoldeb, adborth ac yn y blaen.
2. Y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â goruchwyliaeth grŵp?
3. Enghraifft o rywbeth sydd wedi'i drafod mewn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad.

Ymchwiliadau

4. Pa rôl rydych chi'n ei chwarae o ran helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi yn sgil ymchwiliadau?

Arferion da

5. A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd yn ei wneud sy'n arfer arbennig o dda, yn eich barn chi?

Newidiadau i'r Drefn Oruchwyllo

6. A ydych yn teimlo eich bod yn wybodus ynglŷn â'r newidiadau i'r drefn oruchwyllo? A yw'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu yn y sefydliad? Pa mor dda y mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn mynd rhagddo, yn eich barn chi?

7. O gofio'r newid arfaethedig i fodol o oruchwyliaeth a arweinir gan y cyflogwr, beth, yn eich barn chi, yw'r manteision i:

- a. Goruchwylwyr Bydwagedd
- b. Bydwagedd
- c. Menywod a'r cyhoedd

8. A oes gennych unrhyw bryderon am y newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar Oruchwylwyr Bydwagedd, bydwagedd a menywod?

9. Yn eich barn chi, beth y dylid ei roi ar waith i gymryd lle'r cymorth yr ydych yn ei gynnig i fenywod? A yw eich sefydliad yn gwneud unrhyw gynlluniau ar gyfer y maes hwn?

Cwestiynau i Uwch-reolwyr

1. Pa mor wybodus ydych chi ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r drefn oruchwylio yn awr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?
2. Yn eich barn chi, beth yw'r heriau mwyaf o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?
3. Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu creu a sut y bydd y rhain yn gwella neu'n newid yn y dyfodol?
4. Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynorthwyo menywod yn y dyfodol a fyddai'n cysylltu â goruchwylwr bydwagedd ar hyn o bryd?

Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth

Enw:

Sefydliad:

1. A ydych yn gwybod beth yw Goruchwyliwr Bydwagedd? A roddir gwybod i chi / eich sefydliad am oruchwyliaeth? Pa gyswllt sydd gennych / a fu gennych â Goruchwyliwr Bydwagedd?
2. A ydych yn gwybod pa mor effeithiol yw goruchwyliwr o ran cefnogi dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu ddygymod â phrofiadau anodd?
3. A ydych yn meddwl bod menywod yn gwybod am oruchwyliaeth a Goruchwyliwr Bydwagedd?
4. A ydych yn gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r drefn o oruchwyllo bydwagedd?

Gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwagedd a sylwadau am yr amgylchedd

Lleoliad		
A yw gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwagedd yn glir mewn ardaloedd cyhoeddus?		
Ai'r rhif ar-alwad Cymru gyfan cywir a ddangosir?		
A yw rôl y Goruchwyliwr Bydwagedd wedi'i disgrifio'n gywir yn y wybodaeth?		
A oes esboniad clir o'r amgylchiadau pan ddylai defnyddwyr gwasanaethau gysylltu â Goruchwyliwr Bydwagedd?		
A yw'r daflen Cymru gyfan ynghylch Goruchwylwyr Bydwagedd ar gael mewn ardaloedd cyhoeddus?		

<p>Sylwadau eraill ynghylch amlygrwydd goruchwyliaeth / goruchwylwyr</p>		
<p>Sylwadau cyffredinol am yr amgylchedd</p>		